# Penodi Uwch Safonwr

# TGAU Saesneg Iaith Uned 1

Mae angen Uwch Safonwr ar gyfer cymwysterau TGAU Saesneg Iaith Uned 1 CBAC. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gadw mewn cysylltiad agos â'r tîm TGAU Saesneg Iaith, ac i sicrhau bod gofynion y cymhwyster hwn yn cael eu bodloni'n llawn. Disgwylir iddo/iddi adolygu a newid y briffiau cynhyrchu set (NEA) o bryd i'w gilydd a phan fydd angen gyfrannu at hyfforddi safonwyr yn ôl yr angen, ac arwain y broses safoni yng nghynhadledd y safonwyr. Hefyd bydd disgwyl iddo/iddi gyfrannu at rhaglen DPP ac i fod yn rhan o'r tîm yn ystod y broses ddyfarnu.

**Cyfrifoldebau'r Uwch Safonwr**

Mae'r Uwch Safonwr yn gyfrifol am safonau cymedroli'r gwaith a asesir yn fewnol mewn canolfannau. Rhaid i'r Uwch Safonwr wneud y canlynol:

- cynghori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi safonwyr ac arweinwyr tim, lle bo angen gwneud hynny
- adolygu a newid y briffiau cynhyrchu set (NEA) o bryd i'w gilydd a phan fo angen
- mynychu ac arwain y broses safoni yng nghynadleddau'r safonwyr a/neu gyfarfodydd ar gyfer dethol eitemau safoni fel y bo'n briodol, mynychu unrhyw gyfarfodydd dyfarnu yn ôl gofynion CBAC
- goruchwylio gwaith aelodau ei d/thîm ac archwilio, drwy samplu, safonau marcio'r safonwyr
- monitro safonau holl safonwyr yr uned, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw safonwyr cynorthwyol ac arweinwyr tim, a chymryd camau priodol i sicrhau cywirdeb a chysondeb
- goruchwylio a chymeradwyo adroddiadau canolfannau a baratowyd gan safonwyr
- paratoi adroddiad cyffredinol i fformat a ddiffinnir gan CBAC
- bod ar gael i gynnal adolygiadau o cymedroli i yn ôl gofynion CBAC yn ymwneud ag Ymholiadau am Ganlyniadau yn ystod y cyfnodau perthnasol

Mae swydd yr Uwch Safonwr yn ganolog i weithrediad y cymhwyster ac mae angen ymrwymo amser sylweddol iddi. Mae angen i Uwch Safonwyr fod ar gael am o leiaf 10

diwrnod y flwyddyn i fynychu cyfarfodydd. Gall y cyfnod hwn gynnwys dyddiau yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae taliadau rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi i ddeiliad y swydd fynychu cynadleddau safonwyr (4 diwrnod), a'r cynadleddau dyfarnu ym mis Gorffennaf (4 diwrnod). Yn ogystal, efallai y bydd gofyn i Uwch Safonwyr wneud cyflwyniadau yn nigwyddiadau DPP CBAC.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Guy Melhuish ar e-bostiwch guy.melhuish@wjec.co.uk. Dyddiad cau cyflwyno'r ffurflenni cais yw **13 Rhagfyr 2024.**

**Sut i wneud cais**:
Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio i CBAC** ar hyn o bryd, ewch i https://penodedigion.cbac.co.uk a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Sicrhewch eich bod yn ychwanegu rôl yr **Uwch Safonwr** ar gyfer **TGAU Saesneg Iaith Uned 1** ar y tab 'maes pwnc.' Sicrhewch bod pob adran arall o'ch cais yn gyflawn, gan gynnwys eich cymwysterau a'ch cyflogaeth, a bod eich datganiad ategol yn adlewyrchu eich cais ar gyfer y rôl hon.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds<br>rob.reynolds@wjec.co.uk<br>0290 265 050 | neu | Rabina Chowdhury<br>Rabina.chowdhury@wjec.co.uk<br>02920 265 019 |